# Ymchwil Ddiweddaraf Croeso Cymru

## Arolwg Tracio Defnyddwyr pythefnosol Croeso Cymru

Mae Croeso Cymru yn gweithio gyda VisitBritain a VisitScotland i ehangu arolwg presennol BVA BDRC i ganolbwyntio ar y galw am wyliau yn y tymor byr i ganolig.

Caiff adroddiadau eu cyhoeddi bob pythefnos ar wefan VisitBritain.   Caiff adroddiadau sy'n canolbwyntio ar Gymru eu cyhoeddi bob 4 ton ar wefan Llywodraeth Cymru, ac maent yn cynnwys data ar breswylwyr yng Nghymru a phreswylwyr yn y DU sy'n bwriadu ymweld â Chymru.

### Canfyddiadau Pythefnosol yn y DU (Ton 17: 12 – 16 Hydref 2020):

- Mae hwyliau cyfartalog preswylwyr yn y DU wedi gostwng ychydig ers Ton 16, o 6.6 i 6.5 wedi'i ysgogi gan ostyngiad bach yn y rheini sy'n nodi bod eu hwyliau yn 9-10 allan o 10, y cyfartaledd isaf a welwyd hyd yma ac ar yr un lefel â Thon 15.
- Mae 15% o oedolion yn y DU yn nodi eu bod wedi bod ar dripiau dros nos ers mis Medi; deirgwaith yn uwch na'r gyfran a aeth ar dripiau tramor yn ystod y cyfnod hwn. Gyda phythefnos ar ôl ym mis Hydref, mae'n debygol y bydd y gwyliau a gymerwyd yn cyd-fynd yn agos â'r bwriad o 20% (gofynnwyd yn ystod mis Awst).
- De-orllewin Lloegr sy'n denu'r gyfran uchaf o bobl sy'n cymryd tripiau yn yr hydref, ar 17%, er bod hwn yn is na'r gyfran o 22% a gafodd ymysg y rheini oedd yn bwriadu mynd ar drip pan ofynnwyd iddynt eto ym mis Awst.
- Ystyrir y bydd Cymru, yr Alban a Swydd Efrog hefyd yn cael llai o dripiau na'r hyn y mae'r bwriad yn ei awgrymu.

## Dadansoddiad Misol Cymru (Tonnau 9-13: 31 Awst – 2 Hydref 2020):

- Mae 20% o boblogaeth y DU (10.8 miliwn o oedolion) a 15% o breswylwyr yng Nghymru yn rhagweld y byddant yn mynd ar wyliau byr neu wyliau domestig cyn diwedd y flwyddyn (gyda 2 drip wedi'u cynllunio ar gyfartaledd). Mae'r bwriad i fynd ar drip wedi gostwng yn sylweddol ymysg preswylwyr yng Nghymru, gyda 26% yn bwriadu mynd ar drip ar ddechrau mis Medi, ond gostyngodd hyn i 15% ar ddechrau mis Hydref.
- Mae 27% o oedolion yn y DU yn bwriadu mynd ar drip dros nos rhwng mis Hydref a mis Mawrth, ac mae 8% o'r rhain yn bwriadu ymweld â Chymru. Yn nodedig, mae'r gyfran sy'n bwriadu ymweld â Chymru wedi gostwng ers dechrau mis Medi, ynghyd ag ardaloedd eraill gyda chyfyngiadau uwch fel gogledd-ddwyrain Lloegr.
- Ar ddechrau mis Hydref, roedd 30% o oedolion yn y DU (c.16.2 miliwn) wedi bod ar wyliau byr dros nos neu ar wyliau yn y DU ers i'r cyfyngiadau gael eu codi ar ddechrau mis Gorffennaf, o gymharu â 24% o oedolion yng Nghymru. Mae'r ddwy gyfran yn uwch o lawer na'r tripiau y bwriadwyd eu cymryd cyn i'r cyfyngiadau gael eu codi.
- Mae 14% o breswylwyr yn y DU a 12% o breswylwyr yng Nghymru yn rhagweld y byddant yn mynd ar drip diwrnod yn ystod hanner tymor mis Hydref, gan godi i 22% ymysg teuluoedd yng Nghymru ac yn gostwng i 6% ar gyfer pobl annibynnol hŷn yng Nghymru a 4% ar gyfer y rheini sydd wedi ymddeol yng Nghymru.
- Mae 12% o oedolion yn y DU sydd mewn cyflogaeth yn bwriadu mynd ar drip busnes dros nos cyn mis Mawrth 2021, o gymharu â 7% o oedolion sy'n gweithio sy'n byw yng Nghymru. Cyfarfodydd o 1 i 5 person yw'r prif reswm pam y bydd preswylwyr yn y DU yn mynd ar drip busnes, a chyfarfodydd mwy yw'r prif rheswm nesaf.

## Baromedr Busnes Croeso Cymru Adroddiad Ton 5 (16-29 Medi 2020)

- Mae'r rhan fwyaf (87%) o fusnesau ar agor eto bellach.
- Mae 29% o fusnesau sydd ar agor wedi cael mwy o gwsmeriaid ers ailagor na'r hyn y byddent wedi'i gael fel arfer yn ystod y cyfnod hwnnw, ac mae 31% ohonynt wedi cael llai o gwsmeriaid.
- Mae'r sectorau hunanarlwyo, carafanau a gwersylla wedi perfformio'n dda a darparwyr gweithgareddau sydd wedi cael eu taro waethaf o hyd (mae 75% wedi cael llai o gwsmeriaid na'r arfer).
- Mae tua dau o bob pump (39%) o'r rheini sydd ar agor yn gweithredu ar gapasiti llawn. Mae cysylltiad cryf rhwng perfformiad busnes â chapasiti agored.
- Ceir gwahaniaethau rhanbarthol a busnesau yn ne-ddwyrain Cymru sydd wedi cael eu taro waethaf.
- Roedd un o bob chwech (17%) o fusnesau wedi cael mwy o archebion na'r arfer ar gyfer mis Hydref/Tachwedd, roedd 40% wedi cael yr un lefel o archebion, ond roedd 43% wedi cael llai o archebion. Gostyngodd yr archebion ar gyfer busnesau a gyfwelwyd ar ôl y cyfyngiadau lleol p'un a oeddent mewn ardal lle roedd cyfyngiadau lleol ai peidio.
- Mae 4% o fusnesau wedi dileu swyddi. Ymysg y sampl o 801 o fusnesau, mae swyddi 44 aelod o staff amser llawn wedi cael eu dileu hyd yma, a swyddi 21 o staff rhan amser.
- Mae'r golled ganolrifol fesul busnes oherwydd yr argyfwng tuag at ben uchaf yr amrediad £10,000 i £25,000, sef 41-50% o'r refeniw arferol ar gyfer y flwyddyn gyfan.
- Mae'r rhan fwyaf (73%) o fusnesau yn disgwyl y byddant yn goroesi heibio i'r chwe mis nesaf.  Mae 5% o weithredwyr yn dweud nad ydynt yn disgwyl goroesi'r chwe mis nesaf, ac atebodd y 22% oedd yn weddill gan nodi 'mae'n dibynnu' neu 'wn i ddim'.

**Diweddarwyd y ddogfen gryno hon ddiwethaf ar 28.10.2020*

Cymru Wales

## Ymchwil Defnyddwyr ddiweddaraf parhad

### Llywodraeth Cymru Arolwg o farn y cyhoedd ar y coronafeirws 9 Hydref 2020

- Mae canfyddiadau o'r bygythiadau a achosir gan coronafeirws wedi bod yn gymharol sefydlog ers cryn amser. Mae'n parhau i gael ei weld fel mwy o fygythiad i'r wlad nac i unigolion.
- Mae Mae cyfran y bobl sydd ond yn gadael eu cartref i wneud teithiau hanfodol wedi cynyddu'n ddiweddar ac mae mwyafrif mawr yng Nghymru yn parhau i geisio cadw dau fetr oddi wrth eraill pan fyddant allan.
- Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn parhau i feddwl y bydd y pandemig coronafeirws yn cael effaith economaidd bersonol arnynt. Mae tua chwarter yn poeni na fyddant yn gallu talu eu biliau ymhen mis.

### Ystadegau arbrofol yn ymwneud â theithwyr sy'n cyrraedd y DU ers yr achosion o COVID-19, 27 Awst 2020

- Mae ystadegau arbrofol ar nifer y teithwyr a gyrhaeddodd drwy gydol 2020 yn dangos bod nifer y teithwyr awyr a gyrhaeddodd ym mis Gorffennaf tua un rhan o ddeg o lefel y llynedd.

### Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Diary of a nation: Life in Lockdown 23 Medi 2020

- Crynhoi canfyddiadau ansoddol o arolygon cyhoeddus ar safbwyntiau ac ymddygiadau yn ystod 6 mis cyntaf y cyfyngiadau symud.

### Ymwelwyr Dyddiol ag Amgueddfeydd ac Orielau a noddir gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 23 Hydref 2020

- Ystadegau arbrofol sy'n dangos nifer yr ymweliadau dyddiol ag amgueddfeydd ac orielau a noddir gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn seiliedig ar naw amgueddfa ac oriel o'r fath a oedd ar agor neu ar agor yn rhannol i ymwelwyr ac yn gallu cyflenwi data
- Ar 5-11 Hydref 2020, roedd yr ymweliadau yn 17.1% o'r cyfartaledd dyddiol ym mis Hydref dros y tair blynedd flaenorol. Ar gyfer y cyfnod 12-19 Hydref 2020, roedd hyn yn 17.4%.

### Yr Adran Drafnidiaeth Astudiaeth Genedlaethol o Agweddau tuag at Deithio: Ton 4 (dros dro) 8 Hydref 2020

- Cafodd pandemig y coronafeirws (COVID-19) effaith sylweddol a chynaliadwy o bosibl ar deithio llesol. Pan gawsant eu cyfweld rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2020, nododd 39% eu bod yn cerdded mwy a nododd 38% eu bod yn beicio mwy na chyn yr achosion o'r coronafeirws.
- Yn Nhon 4, nododd 86% eu bod yn pryderu am eu hiechyd wrth ystyried defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

### CThEM Ystadegau'r coronafeirws (COVID-19) 22 Hydref 2020

- Data gan CThEM yn cwmpasu'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod y Coronafeirws, y cynllun Estyn Llaw drwy Fwyta Allan, a'r cynllun gohirio taliadau TAW

### Taking Part Web Panel Data: Engagement during the COVID-19 pandemic 16 Medi 2020

- Amcangyfrifon o ymgysylltiad diwylliannol, digidol a chwaraeon – ar-lein ac all-lein – yn ystod pandemig COVID-19 gan ddefnyddio data panel Lloegr (DS nid yw'n sampl gynrychioliadol) o waith maes a wnaed rhwng mis Mai a mis Gorffennaf.

### Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cyhoeddi cynlluniau peilot newydd ar gyfer galluogi gwylwyr i ddychwelyd i chwaraeon elît 26 Awst 2020

- Bydd digwyddiadau yn cefnogi'r dyhead i alluogi cefnogwyr i ddychwelyd i chwaraeon byw o 1 Hydref gan gadw pellter cymdeithasol.

*Diweddarwyd y ddogfen gryno hon ddiwethaf ar 28.10.2020*

## Ymchwil Defnyddwyr Ddiweddaraf parhad

**VisitBritain** rhagolygon diwygiedig ar gyfer maint a gwerth twristiaeth i mewn i'r DU a thwristiaeth ddomestig yn y DU o ystyried effaith COVID-19 – diweddarwyd 12 Hydref 2020

- Rhagolygon diwygiedig yn seiliedig ar 'senario ganolog' sy'n tybio na fydd brechlyn ar gael yn eang yn 2020, na fydd y DU yn symud i gyfyngiadau symud llawn, ond ei bod yn bosibl y bydd cyfyngiadau lleol.

**Rhagolwg domestig Prydain Fawr 2020:**
Gwariant o £46.8bn (gostyngiad o 49% o gymharu â 2019)

- £12.6bn mewn twristiaeth dros nos (i lawr o £24.7bn yn 2019)
- £34.2bn mewn tripiau dydd (i lawr o £67.0bn yn 2019)

Gwelwyd adferiad cynharach mewn rhai categorïau o dripiau dydd, mae eraill yn gyfyngedig o hyd.

- Mae hyn yn amcangyfrif colled o £44.9bn (£12.1bn mewn gwariant dros nos a gollwyd a £32.8bn mewn gwariant ar dripiau dydd a gollwyd)
- Mae'r golled mewn gwariant o'r economi ymwelwyr domestig bron ddwywaith y golled o ymwelwyr i mewn i Brydain Fawr mewn termau gwirioneddol.

**Rhagolwg i mewn i Brydain Fawr yn 2020:**

- Gwariant o £6.1bn (gostyngiad o 79% o gymharu â 2019)
- 10.6 miliwn o ymweliadau (gostyngiad o 74% o gymharu â 2019)
- Mae hyn yn amcangyfrif colled o gymharu â'r cyfnod cyn COVID-19

Roedd rhagolwg gwreiddiol VisitBritain ar gyfer 2020, a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2019, yn rhagweld y byddai ymweliadau i mewn i'r DU yn cynyddu 2.9% ac y byddai gwariant gan ymwelwyr i mewn i'r DU yn cynyddu 6.6%, gan greu record newydd yn y ddau achos.
Mae rhagolygon diwygiedig yn dangos colled o gymharu â'r rhagolwg cyn COVID-19 o 31.1 miliwn o ymweliadau a gwariant o £23.8 billion.

**Diweddarwyd y ddogfen gryno hon ddiwethaf ar 28.10.2020*

**UK Sport:** Returning to UK sporting events during COVID-19: Analysis of spectator experiences at pilot events

Arolygwyd 1821 o wylwyr mewn digwyddiadau pêl-fasged, criced, pêl-droed, rasio ceffylau, rygbi a snwcer (26 Gorffennaf – 3 Hydref 2020)

- Ar y cyfan, roedd gan yr ymatebwyr lefelau uchel o ymddiriedaeth yn nhrefnwyr y digwyddiadau i'w cadw'n ddiogel, a nodwyd profiadau cadarnhaol o'r digwyddiadau
- Un thema sy'n ailadrodd yw bod y digwyddiadau'n bwysig ar gyfer iechyd meddwl a lliniaru canlyniadau negyddol ynysigrwydd cymdeithasol

## Adferiad a thueddiadau ar gyfer y dyfodol

**Tîm Cipolwg ar Ddefnyddwyr Twristiaeth STR**
Tourism After Lockdown: Taking the Pulse of Travel – Panel teithwyr mis Medi 12 Hydref 2020

**Sefydliad Twristiaeth y Byd y CU:**

- Arolwg tracio adferiad twristiaeth cynhwysfawr 24 Medi 2020
- Briff polisi'r Ysgrifennydd Cyffredinol Tourism and COVID-19 – Unprecedented Economic Impacts

## Marchnadoedd eraill

**VisitScotland** Feedback from Events supply chain consultation 10 Gorffennaf 2020 – canfyddiadau allweddol

- Cwblhaodd 315 o fusnesau sy'n gweithio'n agos gyda'r sector digwyddiadau arolwg ar-lein (o 16-22 Mehefin).
- **Dywedodd 43% y gallant barhau i fasnachu am 1-6 mis, mae 25% yn ansicr, mae 4% wedi rhoi'r gorau i fasnachu**
- Mae 21% wedi methu cael mynediad i gyllid / nid oeddent yn gymwys i gael cyllid
- **Mae 9% wedi / yn rhagweld y byddant yn dileu swyddi (mae hyn yn cynnwys busnesau sy'n cyflogi 0 staff)**

**Cynghrair Twristiaeth yr Alban yn ymateb i ymchwil 3 Medi 2020**
Gallai tua hanner busnesau lletygarwch yr Alban a 90,000 o swyddi fod yn y fantol os bydd y wlad yn cyflwyno cyfyngiadau symud am yr eildro ac mae'n debygol y byddai un o bob pedwar busnes yn mynd i'r wal.

Cyhoeddodd Tasglu Adferiad Twristiaeth yr Alban argymhellion ar gyfer cefnogi'r sector drwy ei adferiad

**Cumbria Tourism** Arolwg tracio busnes **21 Hydref 2020** yn dangos bod bron i un rhan o dair o'r busnesau yn bwriadu dileu swyddi ac nad yw bron i hanner (46%) y busnesau twristiaeth yn hyderus y byddant yn goroesi'r chwe mis nesaf.

Cymru Wales

# Adnoddau gwybodaeth economaidd

## Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn diweddaru adnoddau data amrywiol yn rheolaidd:

### Daily Coronavirus (COVID-19) roundup

- Crynodeb o ddata a dadansoddiadau ar y coronafeirws a luniwyd gan y SYG, a gaiff eu diweddaru'n ddyddiol, ac sy'n cynnwys dolenni i bob cyhoeddiad neu ffynhonnell data

### Coronavirus and the economic impacts on the UK

- Yn seiliedig ar arolwg gwirfoddol newydd a gaiff ei gynnal bob pythefnos, sy'n edrych ar effaith COVID-19 ar fusnesau

**Amcangyfrifon o'r Cynnyrch Domestig Gros ar gyfer y DU:**

- Amcangyfrif misol ar gyfer mis Awst
- Amcangyfrif chwarterol ar gyfer mis Ebrill I fis Mehefin

### Coronavirus and the latest indicators for the UK economy and society

- Data arbrofol sy'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i lunio dangosyddion cyflym

### Coronavirus and the social impacts on Great Britain

- Defnyddio'r Arolwg Barn a Ffordd o Fyw i ddadansoddi effeithiau COVID-19 ar bobl, cartrefi a chymunedau.

### Gwerthiannau manwerthu

- Amcangyfrifon o werthiannau manwerthu, gyda nifer yr eitemau a brynir a'r swm a gaiff ei wario ar gategorïau amrywiol ac ar gyfer gwerthiannau manwerthu ac ar-lein.

### Chwyddiant mewn prisiau defnyddwyr, y DU

- Mynegeion prisiau ar gyfer y mesurau gwahanol o chwyddiant mewn prisiau defnyddwyr.
- Impact of Eat Out to Help Out on Consumer Prices: Awst 2020
- Re-weighted consumer prices basket – adjusting for consumption changes during lockdown: Gorffennaf 2020

### Labour market overview

- Amcangyfrifon o gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd

## Adnoddau eraill:

**Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol**:

- The Lockdown Weighted inflation CPILW for September 2020 26 Hydref 2020

Mae'r **Resolution Foundation** yn cyhoeddi adroddiadau yn rheolaidd yn edrych ar effaith y coronafeirws ar yr economi yn y DU:

- Job Support Scheme moves jobs cliff edge to January and sets up difficult conversations between firms and workers 24 Medi 2020
- An Intergenerational audit for the UK 7 Hydref 2020
- Adroddiad y **Princes Trust** Pandemic highlights "aspiration gap" as young people lose hope 29 Medi 2020

**Diweddarwyd y ddogfen gryno hon ddiwethaf ar 28.10.2020*

Cymru Wales